

# **Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd**

Adroddiad ar y Bil Ynni - Memorandwm Cydsyniad  
Deddfwriaethol (safonau perfformiad allyriadau)

## Cyflwyniad

Ar 9 Ionawr 2013, ystyriodd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd femorandwm cydsyniad deddfwriaethol mewn perthynas â darpariaethau ym Mil Ynni y DU sy'n ceisio sefydlu safonau perfformiad allyriadau i osod terfynau ar faint o garbon deuocsid y gall gorsaf bŵer tanwydd ffosil ei allyrru mewn blwyddyn.

Cytunodd i roi gwybod i'r Cynulliad **nad oes ganddo wrthwynebiad i ddefnyddio'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn, fel y'i cynigiwyd gan Lywodraeth Cymru.**

Ceir lincs i'r holl ddogfennau y cyfeirir atynt yn y papur hwn yn yr adran olaf: Ffynonellau a gwybodaeth ychwanegol.

## Cefndir

Mae Bil Ynni Llywodraeth y DU ('y Bil') yn cael ei ystyried gan Senedd y DU ar hyn o bryd. Cafodd ei gyflwyno yn Nhŷ'r Cyffredin ac mae bellach wedi cyrraedd cyfnod y Pwyllgorau yn Nhŷ'r Cyffredin.

Diben rhai adrannau o'r Bil hwn yw deddfu mewn meysydd cymhwysedd sydd wedi eu datganoli i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'n ofynnol, yn ôl confensiwn, bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru ('y Cynulliad') yn ystyried cydsynio â hyn. Mae'r Cynulliad yn gwneud hyn drwy ystyried cynnig cydsyniad deddfwriaethol a gyflwynir gan Lywodraeth Cymru.

Mae rhagor o wybodaeth am gynigion cydsyniad deddfwriaethol i'w chael yn hysbysiad hwylus y Gwasanaeth Ymchwil *Cyfes y Cyfansoddiad: 6 - Cynigion Cydsyniad Deddfwriaethol*.

Mae'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol wedi ei ddrafftio fel a ganlyn:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried darpariaethau'r Bil Ynni sy'n ymwneud â sefydlu safonau perfformiad ynghylch allyriadau i osod terfynau ar faint o garbon deuocsid y gall gorsaf bŵer tanwydd ffosil newydd (h.y. un sy'n cael ei phweru gan lo, olew neu nwy "naturiol") ei ollwng, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru femorandwm cydsyniad deddfwriaethol ('y memorandwm') ar 5 Rhagfyr 2012 sy'n esbonio hyn mewn rhagor o fanylder.

Yn bennaf, mae'r memorandwm yn nodi bod y darpariaethau yn y Bil y gwneir cais i gael cydsyniad ar eu cyfer wedi'u cynnwys:

- yng nghymalau 38-40; ac
- yn Atodlen 5.

## Diben y polisi

Mae paragraff 5 o'r memorandwm yn nodi diben y polisi yn fwy manwl. Ceir crynodeb byr yn y blwch isod.

### **Crynodeb o ddiben y polisi**

Mae'r elfennau o'r Bil y gwneir cais i gael cydsyniad ar eu cyfer yn ceisio gwneud yr hyn a ganlyn:

- creu dyletswydd i beidio â mynd y tu hwnt i derfyn allyriadau carbon deuocsid blynyddol;
- darparu ar gyfer atal y terfyn allyriadau o dan amgylchiadau eithriadol; a
- chreu dyletswydd i roi trefniadau monitro a gorfodi ar waith.

Mae memorandwm Llywodraeth Cymru yn nodi:

Nod y darpariaethau hyn yw safoni ar draws y DU lefel yr allyriadau Carbon Deuocsid a ganiateir ar gyfer cynhyrchu trydan a sicrhau safon amgylcheddol gyffredinol ar gyfer y DU er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â thargedau ynghylch y Newid yn yr Hinsawdd.

Bydd y darpariaethau hyn, os y byddant yn cael eu rhoi ar waith yng Nghymru, yn adlewyrchu'r rhai a fydd yn gymwys yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

### **Casgliad**

Ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth i'r Pwyllgor nad yw'n cytuno â datganiad Llywodraeth Cymru yn y memorandwm:

[...] ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil DU hwn gan ei fod yn cynrychioli'r deddfwriaeth fwyaf priodol a chymesur er mwyn sicrhau bod y darpariaethau hyn yn berthnasol i Gymru ac er mwyn cydnabod pŵerau Gweinidogion Cymru, gan hefyd sicrhau cysondeb o ran allyriadau sy'n deillio o gynhyrchu trydan ar draws y DU.

Cytunodd i roi gwybod i'r Cynulliad nad oes ganddo wrthwynebiad i ddefnyddio'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn, fel y'i cynigiwyd gan Lywodraeth Cymru.

## Ffynonellau a gwybodaeth ychwanegol

- Mae'r **memorandwm cydsyniad deddfwriaethol** ar gael yn:  
<http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-business-fourth-assembly-laid-docs.htm?act=dis&id=241254&ds=12/2012>
- Mae'r **Bil Ynni** ar gael ar wefan Senedd y DU:  
<http://services.parliament.uk/bills/2012-13/energy.html>
- Mae **Hysbysiad Hwylus y Gwasanaeth Ymchwil, Cyfres y Cyfansoddiad: 6 - Cynigion Cydsyniad Deddfwriaethol**, ar gael yn:  
<http://www.cynulliadcymru.org/gg07-0006.pdf>
- **Gellir gweld y Rheolau Sefydlog** yn <http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-assembly-guidance.htm> (Mae Rheol Sefydlog 29 yn pennu'r broses ar gyfer ystyried memorandwm cydsyniad deddfwriaethol).